

## Ffurflenni Ystadegol Blynyddol Gwasanaethau Tân ac Achub Diogelwch Tân (FSW) 2022 - 23

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Llywodraeth Cymru yn casglu'r data yma.

[Mae canllawiau wedi'u cynnwys i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen](#)

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language

Cymraeg/Welsh ▼

### GWYBODAETH AM Y DARPARWR

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared ▼

Cofnodwch enw'r prif swyddog cyswllt sy'n ymwneud â'r ffurflen hon

Cofnodwch rif ffôn y swyddog cyswllt yma

Nodwch e-bost y swyddog cyswllt


### Dychwelwch y ffurflen trwy Afon cyn 09/06/2023

[www.afonwales.org.uk](http://www.afonwales.org.uk)

[Ebst: Casglu.Data@llyw.cymru](mailto:Casglu.Data@llyw.cymru)

[Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon](#)

[Canllawiau ar gyfer FSW](#)

[FSW1 - Archwiliadau Diogelwch Tân a'r Canlyniadau](#)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Monitro byrdwn wrth ymateb arolygon

Diogelwch Tân (FSW) 2022 - 23

Dewiswch eich GTA o'r rhestr darpared

[Yn ôl at yr Hafan](#)

**Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich ar awdurdodau lleol sy'n cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi os gallech chi ein helpu ni drwy gwblhau'r tabl isod.**

Cofnodwch yr amser a gymerodd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) ddarparu ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau mae staff wedi'u dreulio ar gyfer pob band cyflog blynyddol cyfwerth ag amser llawn wedi'i ddangos isod. Fe fyddwch angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf. Cofnodwch eich amser i'r awr agosaf.

Cynhwyswch amser sydd wedi'i dreulio ar weithgareddau yn darparu ac anfon y ffurflen hon, megis:

- Adalw a chadw'r ffurflen wag;
- Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigyrau sydd angen;
- Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen; ac
- Anfon y ffurflen i Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Llywodraeth Cymru trwy AFON.

Gradd y staff	Oriau wedi'u cymryd	V1
Band 1 (£11,500 - £19,999)		C
Band 2 (£20,000 - £26,999)		C
Band 3 (£27,000 - £33,999)		C
Band 4 (£34,000 - £53,999)		C
Band 5 (£54,000+)		C

Sylwadau

## Ffurflenni Ystadegol Blynyddol Gwasanaethau Tân ac Achub

### Canllawiau cyffredinol ar sut i gwblhau'r ffurflen

#### Llywio

Byddwch yn gallu symud o daenlen i daenlen wrth glicio ar y ddolen briodol.

Er enghraifft, cliciwch y ddolen i fynd i FSW1

[FSW1](#)

Er enghraifft, cliciwch y ddolen 'Nôl i'r Hafan' i fynd yn ôl i'r hafan

[Yn ôl at yr Hafan](#)

#### Eitemau Data Gofynnol

Pan gewch y daenlen, lliwir y celloedd lle disgwylir i chi ddarparu eitemau data.

Lliwir holl gelloedd lle mae data yn ofynnol yn las golau




Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Lliwir y celloedd hyn gyda llwyd tywyll. Ni chaniateir i chi fewnosod data yn y celloedd hyn.



#### Macro llenwi-awtomatig


Os ydych wedi darparu data a ma'r eitemau data sy'n weddill i gyd i fod yn sero -



Cliciwch y botwm llenwi-awtomatig er mwyn cwblhau bob cell gwag gyda sero.

**Os nad ydych yn gallu darparu unrhyw eitem ddata, gadewch y gell YN WAG. Peidiwch â mewnosod unrhyw eiriau (Amherthnasol neu Heb eu casglu ayb) i unrhyw gell heblaw am y celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd yn ganiataol fod sero mewn unrhyw gell yn dynodi'r cyfrif sero am yr eitem ddata hon.**

Darparir lle gwag gwyn yn gyfagos i bob rhes ar bob tabl ar gyfer eich sylwadau ynglŷn â'r data ac ynglŷn ag absenoldeb data. Mae 'na le gwag gwyn hefyd ar waelod pob dalen ar gyfer sylwadau cyffredinol ynglŷn â'r ffurflenni.




#### Dilysiad

##### Dilysiad 1

Mae Dilysiad 1 yn cynnwys chwilio am wallau sylfaenol. Rhaid datrys y gwallau hyn cyn cyflwyno'r daenlen trwy Afon.

Caiff eitemau data sy'n torri rheol dilysiad neu sydd heb eu cyflenwi eu lliwio'n goch.




Caiff eitemau data sydd ar goll gyda sylwadau sy'n esbonio eu habsenoldeb eu lliwio'n oren.

Caiff cofnodion data cyflawn sydd wedi cwrdd â'r rheolau dilysu eu lliwio'n wyrdd.

##### Dilysiad 2

Mae Dilysiad 2 yn cynnwys cymharu gwybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Bydd y gwiriad yn tynnu sylw at eitemau data sydd wedi newid yn sylweddol rhwng blynyddoedd. Mae'r rhain wedi'u nodi yng ngholofn V2 ar y daenlen.

Mae angen cadarnhau newid os oes eitemau data wedi newid rhwng 10% a 20%. Dynodir hyn gan C yng ngholofn V2. Bydd y llythyren C yn dynodi bod angen eglurhad.



Mae angen egluro unrhyw eitemau data sydd wedi newid mwy na 20%. Dynodir hyn gan E yng ngholofn V2. Mae'n rhaid i'r eglurhad gynnwys rhesymau dros y newid ac ni ddylai ddynodi y bu newid neu gadarnhau'r newid yn unig.



Os yw'r data ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r flwyddyn flaenorol ar goll, bydd y llythyren M yn dynodi nad yw'n bosibl gwirio.



Bydd tic gwyrdd yn dynodi fod yr eitemau data o fewn yr amrediad a ddewiswyd.



## Canllawiau ar gyfer FSW

### FSW1 – Archwiliadau diogelwch tân a'u canlyniadau

Nodau:

- Nodi nifer yr archwiliadau diogelwch tân a'u canlyniadau;
- Nodi'r goblygiadau o ran adnoddau;
- Nodi'r berthynas rhwng amcanion y rhaglen orfodi a gwaith cynllunio i leihau risg, a lefelau cyffredinol cydymffurfiaeth;
- Nodi gweithgaredd gorfodi; a
- Nodi ble i dargedu rhaglenni cyhoeddusrwydd, addysg a hyfforddiant am ddiogelwch tân.

Mae'r ffurflen hon yn nodi nifer yr archwiliadau diogelwch tân a gwblhawyd yn erbyn pob math o safle. Dylai fod yn berthynol i'r patrwm risg a nodwyd i'r mathau hyn o safleoedd yn ardal yr GTA ac adlewyrchu'r rhaglen orfodi diogelwch tân.

Er mwyn i bob awdurdod gorfodi lunio proffil risg ar gyfer safleoedd yn ei ardal, mae angen bod â gwybodaeth, i'r graddau y bo'n bosibl, am yr holl safleoedd perthnasol. Bydd y ffurflen hon yn rhoi awgrym bod y rhaglen orfodi wedi'i seilio ar y risg sy'n cael ei greu gan yr holl safleoedd, ac nid dim ond y rhai y gwyddys amdanynt. Dylai nifer y safleoedd y mae'r awdurdod gorfodi'n gwybod amdanynt gael ei chofnodi yn y golofn â'r pennawd "Nifer y safleoedd y gwyddys amdanynt".

Dylid ystyried archwiliad diogelwch tân yn asesiad cynhwysfawr o lefel y gydymffurfiaeth â gofynion y Gorchymyn. Fel arfer mae'r rhain yn archwiliadau sy'n cael eu hamserlennu fel rhan o raglen yr GTA i fonitro cydymffurfiaeth ar sail risg (a elwid ynghynt ail-arolygiadau neu arolygiadau llawn, ac ati).

Noder: mae CFOA wedi datblygu offeryn Archwiliadau Diogelwch Tân y gall Gwasanaethau ei ddefnyddio fel sail ar gyfer polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth:

[www.cfoa.org.uk](http://www.cfoa.org.uk)

Dylai hysbysiad anffurfiol gynnwys unrhyw gamau nad ydynt yn gyfreithiol rwydol, sy'n codi o archwiliad anfodddhaol e.e. hysbysiad anffurfiol, llythyr hysbysu diffygion neu gynllun gweithredu y cytunwyd arno.

Rhybudd ffurfiol – gellir ei ddyroddi ar ddisgresiwn yr Awdurdod Tân ac Achub lle bo digon o sail i gychwyn achos cyfreithiol. Cynigir y Rhybudd yn lle'r fath achos cyfreithiol a, lle caiff ei dderbyn, cedwir cofnod y gellir ei ddefnyddio i ddylanwadu ar achos yn y dyfodol pe digwyddai unrhyw droseddau pellach. Gellir hefyd cyfeirio at y Rhybudd os bydd collfarn yn y dyfodol. Fel arfer bydd peidio â derbyn y Rhybudd yn peri i achos cyfreithiol gael ei gychwyn mewn perthynas â'r materion a ddiffinnir.

Rhaid i nifer yr oriau a gofnodir gynnwys y rhai a gymerir i gwblhau'r archwiliad diogelwch tân gwreiddiol. Mae cyfanswm yr amser yn cynnwys yr holl amser mae holl bersonél yr GTA (gan gynnwys personél gweinyddol) yn ei dreulio.

Nifer yr adeiladau sy'n hysbys	Cyfanswm yr Archwiliadau sydd wedi eu Cynnal	Nifer yr oriau wedi eu gwario ar yr archwiliad	Canlyniadau'r Archwiliad: dim gweithredu'n ymhellach	Cyfanswm nifer y'r hysbysiadau Anffurfiol	Cyfanswm nifer y Rhybuddion Gorfodi wedi eu cyflwyno o dan Erthygl 30	Cyfanswm nifer y Rhybuddion Gwahardd wedi eu cyflwyno o dan Erthygl 31	Nifer y Rhybuddion Ffurfiol wedi eu codi	Cyfanswm Nifer yr Erlyniadau ar gyfer troseddau o dan Erthygl 32		
Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	V1	Sylwadau

1	A - Ysbytai									C	
2	B - Cartrefi Gofal									C	
3	C - Tenementau Tai Amifeddiannaeth (HMO)									C	
4	D - Fflatiau wedi eu hadeiladu i bwrpas >= 4 llawr									C	
12	E - Hostelau									C	
13	F - Gwestai									C	
5	G - Tai wedi eu trosi i fflatiau									C	
6	H - Llety cysgu arall									C	
7	J - Addysg Bellach									C	
8	K - Adeiladau Cyhoeddus									C	
9	L - Adeiladau Trwyddedig									C	
10	M - Ysgolion									C	
11	N - Siopau									C	
14	P - Adeiladau eraill sydd ar agor i'r cyhoedd									C	
15	R - Ffatrioedd neu wrysau									C	
16	S - Swyddfeydd									C	
17	T - Gweithleoedd arall									C	
18	<b>Cyfanswm 2021-22</b>	0	0	0	0	0	0	0	0	0	√

1	A - Ysbytai										
2	B - Cartrefi Gofal										
3	C - Tenementau Tai Amifeddiannaeth (HMO)										
4	D - Fflatiau wedi eu hadeiladu i bwrpas >= 4 llawr										
12	E - Hostelau										
13	F - Gwestai										
5	G - Tai wedi eu trosi i fflatiau										
6	H - Llety cysgu arall										
7	J - Addysg Bellach										
8	K - Adeiladau Cyhoeddus										
9	L - Adeiladau Trwyddedig										
10	M - Ysgolion										
11	N - Siopau										
14	P - Adeiladau eraill sydd ar agor i'r cyhoedd										
15	R - Ffatrioedd neu wrysau										
16	S - Swyddfeydd										
17	T - Gweithleoedd arall										
18	<b>Cyfanswm</b>										

1	A - Ysbytai	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
2	B - Cartrefi Gofal	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
3	C - Tenementau Tai Amifeddiannaeth (HMO)	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
4	D - Fflatiau wedi eu hadeiladu i bwrpas >= 4 llawr	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
12	E - Hostelau	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
13	F - Gwestai	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
5	G - Tai wedi eu trosi i fflatiau	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
6	H - Llety cysgu arall	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
7	J - Addysg Bellach	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
8	K - Adeiladau Cyhoeddus	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
9	L - Adeiladau Trwyddedig	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
10	M - Ysgolion	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
11	N - Siopau	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
14	P - Adeiladau eraill sydd ar agor i'r cyhoedd	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
15	R - Ffatrioedd neu wrysau	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
16	S - Swyddfeydd	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
17	T - Gweithleoedd arall	M	M	M	M	M	M	M	M	M	
18	<b>Cyfanswm</b>	#VALUE!	#VALUE!	#VALUE!	#VALUE!	#VALUE!	#VALUE!	#VALUE!	#VALUE!	#VALUE!	

Sylwadau